| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Mawrth 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Cynllun Archwilio 2017 Cyngor Sir Ddinbych** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae adroddiad o'r enw 'Cynllun Archwilio 2017 – Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac wedi ei atodi. Mae'r adroddiad yn egluro'r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad a rhaglen archwilio ariannol SAC. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â materion fel y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o safbwynt y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae angen i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad SAC. Bydd cynrychiolwyr SAC yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae adroddiad SAC yn amlinellu rhaglen waith yr archwiliad ariannol a'r archwiliad o berfformiad i'r Cyngor. Mae'r rhaglen archwilio ariannol yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt datganiadau ariannol 2016-17. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau a gynigir i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Mae rhaglen waith yr archwiliad o berfformiad yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt y Mesur Llywodraeth Leol. Mae gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd ei fodloni ei hun bod y Cyngor

wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae’r ffioedd am y gwaith a wneir gan SAC o safbwynt y rhaglen waith archwilio ariannol a pherfformiad wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**
Amherthnasol.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Prif Swyddog Cyllid ac uwch aelodau'r Adran Gyllid.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i’r awdurdod.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â’r risg neu effaith, neu eu lleihau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n angen i'r Archwilydd Penodedig, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013), archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.